**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-487
Ein cyf/Our ref CS/01192/13

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

2 Gorffennaf 2013

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin ynglŷn â deiseb Cymru Sofren ynghylch cynllun benthyciadau ar gyfer blaendal. Hoffwn ddiolch i chi hefyd am gynnig opsiwn arall i Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo prynwyr tro cyntaf yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu heddiw o safbwynt prynu eu cartref cyntaf a dringo'r ysgol. Rydym wrthi'n ystyried gwahanol ffyrdd o gynnig cymorth i bawb, yn ychwanegol at ein cynlluniau presennol sef Cymorth Prynu a Rhent yn Gyntaf.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dau gynllun newydd yn ddiweddar a fydd yn cynorthwyo pobl i brynu cartref o'r enw 'Help to Buy'.

Cynllun gwarantu morgais fydd y cynllun cyntaf a fydd yn galluogi pobl i gael morgeisi benthyciad uchel. Deallwn y bydd y cynllun hwn ar waith ar draws y DU o fis Ionawr 2014.

Cynllun ar gyfer Lloegr yn unig yw'r ail sy'n gynllun ecwiti a rennir. Darperir benthyciad o hyd at 20% i'r prynwr yn ddi-log am bum mlynedd. Rwyf wedi cymeradwyo cynigion cychwynnol ar gyfer cynllun ecwiti a rennir yng Nghymru. Mae fy swyddogion wrthi'n cynllunio'r cynllun newydd hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth yma yn cynnig peth sicrwydd i'ch etholwyr fod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r materion y maent wedi tynnu sylw atynt.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration